Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Ysgol Eifionydd
## Porthmadog
## Gwynedd
## LL49 9HS

## Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Eifionydd

Ysgol uwchradd naturiol ddwyieithog ar gyfer disgyblion 11-16 oed yw Ysgol Eifionydd. Mae wedi ei lleoli yn nhref Porthmadog yng Ngwynedd ac fe ddaw'r disgyblion o drefi Porthmadog a Chricieth ac ardal wledig Eifionydd. Mae 364 o ddisgyblion ar y gofrestr, 67 o ddisgyblion yn llai nag ar adeg yr arolygiad diwethaf yn Hydref 2011.

Mae tua 8.9% o'r disgyblion yn gymwys i ginio ysgol am ddim, sydd yn is na'r ffigwr cenedlaethol, sef 17%. Mae 17% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan 2.2% o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd yn agos iawn i'r ffigwr cenedlaethol.

Daw 69% o'r disgyblion o gartrefi lle Cymraeg yw iaith yr aelwyd. Mae ychydig iawn o'r disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Mae'r pennaeth yn ei swydd yn barhaol ers Ebrill 2016. Mae uwch dîm rheoli'r ysgol yn cynnwys y pennaeth a dau bennaeth cynorthwyol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Eifionydd yn gymuned glòs iawn gydag ethos ofalgar a chefnogol.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn barchus at eu hathrawon, ymwelwyr a'u cyfoedion.  Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau llafar cryf ac maent yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr i'r ysgol a'r ardal trwy weithgareddau allgyrsiol ac elusennol.  Yn gyffredinol, mae'r disgyblion yn mwynhau'n fawr eu hamser yn yr ysgol.

Mae arweinyddiaeth gadarn wedi sicrhau ymdeimlad cryf o falchder a pherthyn ymysg disgyblion a staff yr ysgol.  Serch hyn, nid yw wedi cael digon o effaith ar gyflawniad disgyblion mewn meysydd pwysig na sicrhau ansawdd cyson uchel i'r addysgu.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Gwella safonau ar draws yr ysgol

A2 Cryfhau ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol i ymestyn disgyblion o bob gallu

A3 Gwella effeithiolrwydd arweinwyr canol fel eu bod yn llwyr atebol am bob agwedd ar y ddarpariaeth a'r safonau yn eu meysydd cyfrifoldeb

A4 Miniogi'r prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella i gynnwys arfarniad clir o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn y safonau ac ansawdd yr addysgu

A5 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Yn gyffredinol, gwna'r mwyafrif o ddisgyblion gynnydd gwerthfawr yn eu dealltwriaeth a'u medrau pynciol. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, nid yw cyflawniad disgyblion mewn llawer o'r dangosyddion wedi cymharu'n ffafriol â pherfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg dros y ddwy flynedd diwethaf.

Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn adalw dysgu blaenorol yn gywir ac yn adeiladu ar hwn yn fuddiol. Maent yn gwrando'n astud a pharchus ar yr athro ac ar gyfraniadau gan ddisgyblion eraill. Yn y gwersi hyn, mae'r disgyblion yn cydweithio'n effeithiol mewn parau neu grwpiau bach. Er enghraifft, yn y gwersi addysg gorfforol, mae disgyblion yn gwerthuso a gwirio techneg naid uchel ei gilydd yn llwyddiannus.

Mae medrau llafar cryf gan lawer o ddisgyblion. Maent yn cyfleu eu safbwyntiau yn glir wrth drafod eu syniadau mewn grwpiau neu barau ar bynciau fel effaith y llifogydd ar Bangladesh. Mae ychydig o ddisgyblion uwch eu gallu'n defnyddio iaith naturiol, idiomatig yn fedrus ac yn defnyddio terminoleg yn hyderus. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi a gynhelir yn y Gymraeg, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn trafod eu gwaith â'u cyfoedion yn Saesneg.

Mae llawer o ddisgyblion yn ddarllenwyr hyderus. Maent yn distyllu gwybodaeth berthnasol o ffynonellau amrywiol yn llwyddiannus ac yn dadansoddi testunau yn effeithiol, gan ddod i gasgliadau synhwyrol. Er enghraift, mae disgyblion yn y gwersi addysg grefyddol yn fedrus wrth adnabod nodweddion allweddol arferion crefyddau gwahanol a'u pwysigrwydd i gredinwyr. Mewn ychydig o wersi, gwna'r disgyblion gynnydd cryf wrth ddatblygu medrau dadansoddi a rhesymu. Er enghraifft, yn y gwersi Cymraeg, mae disgyblion yn dadansoddi stori 'Eli Brown' yn fedrus ac yn tynnu gwybodaeth ohoni'n grefftus er mwyn dod i gasgliadau trwyadl am y cymeriadau. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, mae ychydig o ddisgyblion yn rhy oddefol ac yn colli diddordeb yn eu gwaith.

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig i ystod eang o bwrpasau a chynulleidfaoedd. Mae disgyblion uwch eu gallu yn ysgrifennu darnau estynedig cryf sy'n dadansoddi ystod o safbwyntiau cyferbyniol. Er enghraifft, yng ngwersi'r Fagloriaeth, mae'r disgybion yn trafod tlodi plant yn hylaw ac yn fedrus. Mae ychydig iawn yn arbrofi gyda throadau ymadrodd amrywiol gan ysgrifennu'n ddifyr a gwreiddiol. Er enghraifft, yn y gwersi daearyddiaeth, mae disgyblion yn ysgrifennu llythyr yn dychmygu'r profiad o wyliau mewn lleoliad sydd â fforest law. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig sy'n rhy gryno a chyfyngedig. Yn y ddwy iaith ac ar draws llawer o bynciau, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg sylfaenol, yn cynnwys camsillafu termau pwnc allweddol.

Ceir enghreifftiau cyson o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol ar draws ystod o bynciau. Er enghraifft, mewn gwersi cerddoriaeth, mae disgyblion yn creu bwrdd stori fel sail i'w cyfansoddiad cerddorol ar y testun 'Yr afanc'. Mewn gwersi celf, mae disgyblion yn arbrofi gyda dyfrliwiau, sialc a phaent wrth greu portreadau o'r wyneb. Maent hefyd yn datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol, er enghraifft mewn ffiseg wrth ystyried sut mae sbring slinci yn ymateb i ergydion o wahanol onglau.

Yn gyffredinol, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu medrau rhif sylfaenol fel adio, tynnu, lluosi a rhannu yn gadarn. Mae llawer o ddisgyblion yn dadansoddi data'n gywir ac yn llunio graffiau a thablau addas i arddangos eu canlyniadau. Er enghraifft, mewn gwersi technoleg, mae llawer o ddisgyblion yn casglu gwybodaeth trwy holiadur am nodweddion dymunol daliwr pensiliau, gan gyflwyno'r canfyddiadau'n glir ar siart pei a dehongli a dadansoddi'r canfyddiadau mewn adroddiad cynhwysfawr. Serch hynny, nid yw disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhif yn llwyddiannus er mwyn datrys problemau pob dydd yn ddigon aml.

Mewn ychydig o bynciau, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol i brosesu geiriau, creu cyflwyniadau a thrin data. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd ar draws y pynciau yn eu medrau technoleg gwybodaeth uwch, er enghraifft ymdrin â thaenlenni a chronfeydd data a modelu.

Mae perfformiad yn y dangosydd lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg yn is nag ydyw mewn ysgolion tebyg mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf. Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio hefyd yn is o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf. Nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd o ddiwedd cyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 4 yn y dangosyddion hyn.

Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n llwyddo i ennill 5 neu fwy gradd TGAU A*-A neu gyfwerth yn is nag ydyw mewn ysgolion tebyg eraill dros y tair blynedd diwethaf.

Mae perfformiad bechgyn a merched yn y rhan fwyaf o'r prif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol pedwar wedi dirywio dros amser ac yn is nag ydyw mewn ysgolion tebyg. Mae perfformiad yr ychydig iawn o ddisgyblion sydd yn gymwys i brydau ysgol am ddim yn is na chyfartaledd yr un grŵp o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud digon o gynnydd.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae lles disgyblion yn agwedd gref o fywyd Ysgol Eifionydd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel, ac yn hyderus bod yr ysgol yn ymateb i'w pryderon a'r achosion prin iawn o fwlio. Mae ymddygiad y rhan fwyaf ohonynt yn dda ac maent yn barchus at eu hathrawon, ymwelwyr a'u cyfoedion.

Mae barn y disgyblion yn chwarae rhan flaenllaw yng ngwaith yr ysgol ac yn cyfrannu'n werthfawr tuag at benderfyniadau. Mae'r cyngor ysgol wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar fywyd yr ysgol, er enghraifft wrth lunio polisi ymddygiad ac ymgyrch gwrth-fwlio'r ysgol. Mae'r llysgenhadon chwaraeon wedi codi symiau sylweddol o arian at gael mwy o offer chwaraeon i ddisgyblion yn ystod amser cinio trwy drefnu a chynnal digwyddiadau fel y ras Santa. Mae'r cyngor iaith yn gweithio'n ddiwyd er mwyn cael effaith gadarnhaol ar ddefnydd cymdeithasol disgyblion o'r iaith Gymraeg trwy weithgareddau fel disgo Cymraeg a bît-bocsio. Mae llawer o ddisgyblion yn weithgar iawn trwy'r flwyddyn yn codi arain at elusennau lleol a chenedlaethol. Maent yn chwarae rôl allweddol yn creu ymdeimlad cryf o gymuned yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall yn glir bwysigrwydd bwyta'n iach. Mae disgyblion yn mynychu clybiau, sesiynau cymorth gwaith a gweithgareddau allgyrsiol mewn cyfnodau boreol, yn ystod amser cinio ac ar ôl ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at eu gwaith ac yn dyfalbarhau â'u tasgau. Mae llawer yn dangos balchder yn eu gwaith ac yn cyflwyno eu gwaith yn daclus ac yn drefnus. Mae llawer o ddisgyblion yn cydweithio'n effeithiol a brwdfrydig mewn parau a grwpiau. Yn y trafodaethau hyn, mae disgyblion yn dangos parch tuag at gyfraniadau pobl eraill ac yn ystyriol o safbwyntiau gwahanol. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd oherwydd maent yn colli diddordeb a chymhelliant yn eu gwaith yn ystod y wers.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon berthynas waith gadarnhaol gyda'r disgyblion ac maent yn rheoli amgylchfyd y dosbarth yn effeithiol. Mae llawer yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn, yn cyfathrebu'n eglur ac yn fodelau iaith da iawn.

Yn y mwyafrif o wersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion ac maent yn paratoi adnoddau symbylus. Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon yn cynllunio'n fwriadus gyfres o weithgareddau buddiol sy'n sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd yn eu gwybodaeth bynciol ac yn eu medrau. Mae nodau ac amcanion clir i'r gwersi hyn ynghyd â thempo sionc sy'n cymell ac ennyn cyfranogiad disgyblion.

Yn yr ychydig iawn o wersi sy'n arbennig o effeithiol, mae gan athrawon angerdd a brwdfrydedd heintus wrth addysgu eu pwnc. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn o'r disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cynllunio'n ofalus iawn ac yn modelu enghreifftiau o waith safonol er mwyn sicrhau cyflawniad a chynnydd ardderchog. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn holi cwestiynau miniog a threiddgar er mwyn dyfnhau dealltwriaeth disgyblion.

Mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgwyliadau'r athrawon yn ddigon uchel. Nid yw'r gweithgareddau wedi eu cynllunio'n ddigon manwl i ymestyn disgyblion o bob gallu. Nid yw athrawon yn enghreifftio atebion ac arferion da i sicrhau bod disgyblion yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir ohonynt ac mae eu cyflwyniadau yn rhy hir. Yn y gwersi hyn, nid yw'r disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol, maent yn diflasu a datgysylltu eu hunain o'r broses ddysgu.

Mae'r mwyafrif o athrawon yn cynnig adborth buddiol sy'n rhoi arweiniad effeithiol i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith. Maent yn cynnig cyngor doeth a sensitif i ddisgyblion a thargedau pwrpasol i sicrhau gwelliant. Fodd bynnag, mae lleiafrif o athrawon yn cynnig adborth sy'n rhy arwynebol. Dim ond mewn lleiafrif o achosion mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymateb yn gynhyrchiol i'w sylwadau ac yn gwella ansawdd eu gwaith. Yn gyffredinol, mae anghysondeb o fewn ac ar draws yr adrannau o ran ansawdd yr adborth i ddisgyblion.

Ar y cyfan, mae ansawdd yr addysgu yn ddigonol ac angen gwella.

Mae arweinwyr yr ysgol yn ystyried dyheadau'r disgyblion yn ofalus wrth gynllunio'r cwricwlwm. Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus a hyblyg gyda darparwyr cyfagos er mwyn cynnig darpariaeth eang yng nghyfnod allweddol 4. Ceir ystod werthfawr o gyrsiau TGAU, ynghyd ag opsiynau galwedigaethol mewn pynciau megis peirianneg ac amaethyddiaeth.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer cyflwyno Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r ysgol wedi trefnu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion weithio'n effeithiol gydag ysgolion partner cynradd fel rhan o'u gwaith cymunedol. Er enghraifft, maent yn cynllunio ac arwain hyfforddiant chwaraeon i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd cyfagos. Mae cysylltiadau cryf gan yr ysgol â'i hysgolion partner cynradd sy'n cynnwys cydweithio ar agweddau ar y ddarpariaeth er mwyn sicrhau bod disgyblion Blwyddyn 7 yn ymgartrefu'n ddiffwdan.

Mae arlwy eang o brofiadau allgyrsiol i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Trefnir ymweliadau gwerthfawr â sefydliadau megis Ysbyty Gwynedd, prifysgolion, cwmnïau peirianneg lleol ac i leoliad set raglen deledu boblogaidd.

Llwydda'r ysgol i gynnig profiadau gwerthfawr i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae disgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio'u medrau llythrennedd mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Enghraifft o hyn yw'r gwaith gwerthuso o safon uchel mewn technoleg wrth i ddisgyblion ddylunio bisgedi. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd wedi ei mapio'n briodol ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'r ystod o gyfleoedd i ddatblygu'r medrau hyn ar draws y pynciau perthnasol yn rhy gyfyng. Mae trefniadau trawsysgol i gefnogi disgyblion gyda medrau llythrennedd a rhif gwan yn gynhwysfawr. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh ar draws y pynciau yn annatblygedig.

Mae'r ysgol yn cynnig amryw o brofiadau a gweithgareddau cyfoes i hybu defnydd ffurfiol a chymdeithasol y disgyblion o'r Gymraeg. Yn ddiweddar, mae'r cyngor iaith wedi ei sefydlu i annog disgyblion i fod yn unigolion dwyieithog hyderus, cyfoethog eu diwylliant. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys ymweliadau gan awduron, gigiau roc, gweithdai cerddoriaeth a gweithdy drama.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae Ysgol Eifionydd yn gymuned ofalgar sydd yn cynnig cefnogaeth ac arweiniad gwerthfawr i'w disgyblion. Mae ganddi ethos cynhwysol a chadarnhaol sydd yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol strategaethau a gweithdrefnau cadarn er mwyn olrhain, monitro a hyrwyddo presenoldeb a lles. Mae rhain yn cynnwys systemau gwobrwyo effeithiol. Mae staff yn cydweithio'n llwyddiannus gyda rhieni ac ystod o asiantaethau i ddarparu cefnogaeth gyson a chadarn i gynyddu a chynnal presenoldeb disgyblion. Ceir amrywiaeth o ymyraethau defnyddiol fel y 'Clwb Bydis' a'r uned gynhwysiad sy'n cyfrannu'n effeithiol at les a gofal disgyblion bregus. Maent wedi helpu'r disgyblion hyn i wella'u hymddygiad, eu lles a'u medrau personol yn sylweddol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi addasu ei system olrhain cynnydd academaidd yn briodol. Yn gyffredinol, gwneir defnydd pwrpasol o'r wybodaeth hon i gefnogi disgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni. Fodd bynnag, nid yw'r systemau hyn wedi bod yn ddigon llwyddiannus yn olrhain cynnydd disgyblion mewn llawer o'r prif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn briodol. Gwneir defnydd da o staff ategol i ddarparu cefnogaeth effeithiol i'r disgyblion hyn. Yn ddiweddar, mae ansawdd y cynlluniau addysg unigol ar gyfer y disgyblion hyn wedi gwella. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn olrhain cynnydd y disgyblion hyn yn erbyn eu targedau yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud digon o gynnydd.

Mae'r disgyblion yn elwa o gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau personol wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau a chlybiau allgyrsiol niferus, er enghraifft rygbi i ferched a bechgyn, clwb drama a chlwb celf. Mae'r 'Porth' yn adnodd gwerthfawr lle mae disgyblion Blwyddyn 10 yn cynnig cymorth gwaith cartref i ddisgyblion iau yn ystod amser cinio. Mae disgyblion hefyd yn ymgymryd yn frwdfrydig â rolau amrywiol ac yn ymateb yn hyderus i'r cyfleoedd buddiol i leisio barn ar ddarpariaeth yr ysgol. Enghreifftiau nodweddiadol yw rôl arweiniol y cyngor ysgol sydd wedi wedi cyfrannu'n fuddiol at wella agweddau, megis y dewis o fwyd iach sydd ar gael yn y ffreutur a chael ffynnon ddŵr a byrddau picnic ar dir yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion wella eu ffitrwydd a'u dealltwriaeth o sut i fyw a chadw'n iach. Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn gynhwysfawr ac yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae cyfraniadau pwysig siaradwyr allanol a chyflwyniadau fel 'Mirror, Mirror' ar faterion rhywioldeb yn cyfrannu at ddealltwriaeth y disgyblion o ystod eang o faterion cymdeithasol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddianus gydag asiantaethau allanol er mwyn darparu profiadau buddiol i'r disgyblion. Er enghraifft, ceir ymweliad wythnosol gan swyddog cymunedol yr heddlu er mwyn trafod a holi ynghylch materion sydd yn bwysig i'r disgyblion..

Mae gan yr ysgol rhaglen gynhwysfawr o gyfleoedd a gweithgareddau perthnasol sy'n paratoi disgyblion yn drwyadl iawn ar gyfer y byd gwaith neu'r cam nesaf yn eu bywydau. Er enghraifft, cynhelir cwrs preswyl deuddydd yng Ngholeg Glynllifon ar gyfer disgyblion sydd â diddordeb mewn amaethyddiaeth. Yn ogystal,ceir rhaglen ddefnyddiol o addysg sy'n gysylltiedig â byd gwaith, gan gynnwys cyfnod o brofiad gwaith buddiol gyda chyflogwyr lleol i bob disgybl ym Mlwyddyn 10. Trefnir cyngor a mentora buddiol i'w cefnogi ymhellach.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni, megis trwy'r cylchlythyr 'Min y Traeth' a chyfryngau cymdeithasol. Mae rhieni a gofalwyr yn derbyn gwybodaeth werthfawr am gynnydd, ymdrech a phresenoldeb eu plant drwy adroddiadau interim a llawn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella

Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth yr uwch dîm rheoli, wedi sefydlu gweledigaeth glir ac maent yn cydweithio'n agos gyda'i gilydd, a'r staff, i wireddu'r weledigaeth hon.

Maent yn hybu gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol yn eu gwaith bob dydd ac yn datblygu cydweithredu amlwg rhwng rheolwyr a'r staff. Dros y ddwy flynedd diwethaf yn arbennig, mae'r uwch dîm wedi llwyddo i wella prosesau cyfathrebu rhwng staff ar bob lefel ac i greu awyrgylch o ymddiriedaeth ar draws yr ysgol.

Dros y dair blynedd diwethaf, mae arweinyddiaeth gadarn a chynllunio ar gyfer gwella effeithiol wedi cyfrannu tuag at wella cyfraddau presenoldeb, sicrhau ymddygiad da a chynnal safonau cymharol uchel mewn mathemateg, y Gymraeg a Lefel 1. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio hwn wedi cael digon o effaith ar ychydig o agweddau pwysig, gan gynnwys cyflawniad disgyblion ADY, nac ychwaith wedi sicrhau ansawdd cyson uchel i'r addysgu.

Mae cyfrifoldebau'r uwch dîm rheoli wedi eu dosrannu'n addas ac yn glir i'r holl staff. Mae trefniadaeth a strwythurau llinellau atebolrwydd hefyd yn glir. Ceir rhaglen o gyfarfodydd cyson sy'n canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau'r ysgol. Serch hynny, mae dyletswyddau swmpus yr uwch dîm rheoli yn cyfyngu ar yr amser sydd ganddynt i weithredu'n strategol. Mae cyfarfodydd yn canolbwyntio'n ormodol ar faterion gweithredol ar draul cynllunio strategol. O ganlyniad, mae hyn wedi cyfyngu ar allu'r rheolwyr i sicrhau atebolrwydd a chysoni arferion ar draws ac o fewn adrannau.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn ac yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr i fywyd yr ysgol. Maent yn datblygu dealltwriaeth o waith adrannau unigol. Serch hynny, nid yw'r llywodraethwyr wedi herio'r ysgol yn ddigonol i godi safonau yng nghyfnod allweddol 4 nac i wella safonau yn yr adrannau sy'n tangyflawni.

Trwy brosesau hunanarfarnu defnyddiol, mae'r ysgol yn casglu tystiolaeth uniongyrchol ynghylch ansawdd y dysgu a'r addysgu. Er enghraifft, mae rheolwyr yn ymweld â gwersi a chraffu ar waith disgyblion yn rheolaidd yn ogystal â chasglu barn rhieni a'r disgyblion. Mae dealltwriaeth briodol arweinwyr o berfformiad yr ysgol yn arfarnol ar y cyfan ac yn rhoi sail gadarn i gynllunio gwelliannau mewn llawer o feysydd. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hunanarfarnu yn eu cyfanrwydd yn galluogi arweinwyr i gael darlun realistig o berfformiad yr ysgol. Er enghraifft, mae arweinwyr yn rhoi gormod o arwyddocâd i gymariaethau â chyfartaleddau Cymru gyfan a'r awdurdod lleol yn hytrach na rhai yn erbyn ysgolion tebyg ledled Cymru. Nid ydynt chwaith yn defnyddio'r holl ddadansoddiadau data sydd ar gael iddynt i oleuo eu harfarniadau. Yn ogystal, nid ydynt yn ystyried ansawdd yr addysgu na'r arweinyddiaeth yn sgil eu heffaith ar safonau'n effeithiol. Yn sgil hyn, mae eu harfarniad cyffredinol ar y safonau a'r addysgu yn rhy hael.

Mae'r cynllun gwella ysgol-gyfan yn adeiladau'n briodol ar ganfyddiadau'r prosesau hunanarfarnu. Mae'r blaenoriaethau ynddi yn addas a cheir gweithgareddau synhwyrol i wella agweddau penodol. Yn gyffredinol, mae'r meini prawf llwyddiant yn briodol.

Mae gan y mwyafrif o'r rheolwyr canol ddealltwriaeth addas o safonau yn eu hadrannau. Serch hynny, mae effeithiolrwydd rheolwyr canol yn amrywio'n ormodol. Nid yw lleiafrif ohonynt â dealltwriaeth ddigon trylwyr o'r meysydd i'w datblygu yn eu hadrannau. Nid yw'r arweinwyr bugeiliol yn hunanarfarnu nac yn cynllunio'n ffurfiol ar gyfer gwella.

Mae’r ysgol yn darparu amryw o weithgareddau priodol i gefnogi dysgu proffesiynol staff.  Ymateba’r ysgol yn gadarnhaol at anghenion datblygu staff unigol a materion ysgol gyfan trwy drefnu dyddiau hyfforddiant mewnol.  Maent yn cael cyfleoedd buddiol i arsylwi athrawon eraill a rhannu arfer dda ymhlith ei gilydd.

Mae’r ysgol wedi’i staffio’n briodol ac mae bron pob athro’n dysgu o fewn eu harbenigedd.  Mae’r ysgol yn defnyddio staff gweinyddol ac ategol yn effeithiol i gefnogi’r athrawon a’r disgyblion.  Mae’r pennaeth, y rheolwr busnes ac is-bwyllgor cyllid y llywodraethwyr yn monitro cyllideb yr ysgol yn gadarn ac wedi sicrhau bod yr ysgol heb fod mewn dyled.  Maent yn gweithredu’n gadarn i sicrhau bod gan yr ysgol ddigon o adnoddau dysgu ac adeiladau pwrpasol.  Gwneir defnydd perthnasol o grantiau i gefnogi blaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion a’r grant gwella ysgolion.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  04/07/2018